

PECYN CYMORTH MARCHNATA

HYRWYDDO'R CAIS I SICRHAU STATWS SAFLE TREFTADAETH Y BYD
UNESCO I DIRWEDD LLECHI GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU



Cynnwys:

1.	Cyflwyniad	3
2.	Gair am y pecyn cymorth	4
3.	Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth	5
4.	Lledaenu'r neges	6
5.	Perffeithio'r neges	8
6.	Delwedd wych	10
7.	Defnyddio'r logo	11
8.	Rhagor o gymorth	15



Cyflwyniad

Mae stori Llechi Cymru yn un oesol. Mae i'r dirwedd ôl-ddiwydiannol hon le arbennig yng nghalonau a meddyliau'r trigolion. Mae tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru yn adrodd stori fawreddog esblygiad bro dawel, ddi-nod i fod yn ardal lle nad oedd dianc rhag y diwydiant llechi; lle'r ymddangosodd chwareli a threfi, ac y cerfiwyd ffyrdd a rheilffyrdd trwy Eryri i borthladdoedd y glannau. Dyna pam yr enwebwyd tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru i fod yn Safle Treftadaeth y Byd.

Cyfle gwych

Mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn gyfle i grwpiau, sefydliadau a busnesau i elwa ar gydnabyddiaeth ryngwladol i farchnata'r ardal gartref a thramor. Mae'n gymhelliad i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd i ddenu a gwasanaethu cwsmeriaid a marchnadoedd newydd.

- Eisoes, mae twristiaeth yn Eryri a'r cylch yn cyfrannu £1.12 biliwn at yr economi lleol, gan ddarparu dros 15,500 o swyddi, sy'n golygu mai ein rhanbarth ni sydd â'r ganran uchaf ond un o swyddi twristiaeth y pen yng Nghymru a Lloegr.
- Mae diwydiant a busnesau'n rhan hanfodol o'r dirwedd drawiadol, yn cyfrannu at yr ymgais i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd wrth sicrhau bod stori Llechi Cymru'n parhau trwy arloesi ac entrepreneuriaeth.
- Llwyddodd safleoedd eraill Treftadaeth y Byd i ddenu rhagor o dwristiaid diwylliannol sy'n gwario mwy o arian na'r cyffredin a byddai hynny'n hwb arall i economi'r safle a enwebwyd.



Gair am y pecyn cymorth

Croeso i becyn cymorth marchnata'r cais i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru – adnodd di-dâl i grwpiau, sefydliadau a busnesau. Mae'n hawdd ei ddefnyddio ac yn eich arwain at bob math o ddeunyddiau a gwybodaeth. Gall y pecyn cymorth eich helpu i ddefnyddio tirwedd a threftadaeth ardal 'Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru' i farchnata'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes yn llwyddiannus.

Beth yw'r pecyn cymorth a pham y mae'n ddefnyddiol?

Mae'r pecyn cymorth yn cynnig syniadau a chynghorion syml ar gyfer defnyddio'r cysyniad 'Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru' yn eich ymgyrchoedd marchnata i'ch helpu i farchnata eich grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes. Paratowyd y pecyn cymorth fel rhan o Strategaeth Ddehongli ardal yr enwebiad am statws Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru.

Beth yw'r Safle Treftadaeth y Byd?

Enwebwyd tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru i fod yn Safle Treftadaeth y Byd. Y bwriad yw cydnabod arwyddocâd y dirwedd, y diwydiant a'r bobl a'i ffurfiodd, nid yn unig i drigolion yr ardal hon ond yn fyd-eang. Rhannwyd yr ardal yn saith rhan ddaearyddol neu ddarn cydrannol, pob un â'i hunaniaeth neu ei chymeriad unigryw, wedi'i diffinio gan ei daeareg, y ffordd y cloddiwyd am y llechfaen, y dull o gludo'r llechi i ffwrdd, a'r rhai oedd yn rheoli'r chwareli ac yn gweithio yma. Arweinir y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â Cadw, Amgueddfa Lechi Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Phrifysgol Bangor.

Cewch ragor o wybodaeth yn:
www.llechi.cymru



Sut y mae hyn yn berthnasol i'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes chi?

Y bwriad, trwy sicrhau cysondeb ymhlith cynlluniau marchnata ledled ardal Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru, yw gwneud yr arlwy a gynigir i ymwelwyr yn fwy deniadol trwy ddangos eich bod yn rhan o rywbeth llawer mwy. Ni all yr un safle unigol gyflwyno stori enfawr ein treftadaeth ddiwydiannol wych ond, gyda'n gilydd, mi allwn ni wneud.

Rydym yn awyddus i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar y budd a gaiff eich grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes o fod yn rhan o deulu Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru.

Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

Mae'n bwysig sicrhau cysondeb o ran ieithwedd a negeseuon wrth ddisgrifio Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru mewn ymgyrchoedd marchnata. Dylai grwpiau, sefydliadau, busnesau a rhanddeiliaid gyflwyno un stori gan ddefnyddio ieithwedd a negeseuon cyson i atgyfnerthu hunaniaeth yr ardal i ymwelwyr.

Defnyddio negeseuon allweddol i greu ymdeimlad o le

Mae'r negeseuon hyn yn ymwneud â'r dirwedd fawreddog, ac ysbrydoliaeth a dyfeisgarwch pobl Eryri sydd wedi addasu i newidiadau.

Pan soniwn am Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru mewn deunydd hysbysebu neu ar y cyfryngau cymdeithasol, dylem fod yn wreiddiol, yn glyfar a byth yn ddiflas. Mae angen i ni ddefnyddio iaith ddeinamig ac ysbrydoledig i gymell pobl i ymddiddori yn ein treftadaeth a'n stori rymus.

Mae'r ieithwedd a'r negeseuon yn berthnasol i'r ffordd rydych yn cysylltu â grwpiau, sefydliadau a phartneriaid busnes ac i'r ffordd rydych yn marchnata'r arlwy i ymwelwyr o gartref a thramor.

Bod yn ysbrydoledig ac yn greadigol yw ein prif adnodd adnewyddadwy. Gadewch i ni ddefnyddio'r egni hwn wrth fynegi ein hunain er mwyn ennyn diddordeb rhagor o bobl yn ein stori a'n treftadaeth ar bob lefel.

Mae enghreifftiau o'r negeseuon allweddol i'w gweld yn yr adran adnoddau.





Lledaenu'r neges

Y ffordd orau o hyrwyddo'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes yw defnyddio gwahanol gyfryngau i gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth. Er mwyn marchnata'n llwyddiannus, mae angen cynllunio ymlaen llaw – gan ddewis rhyw dri neu bedwar o brif gyfleoedd cyfathrebu dros gyfnod o flwyddyn er mwyn creu ymgyrch sylfaenol.

Ffordd dda o ddechrau

Un ffordd dda o ddechrau yw diweddarau'ch deunyddiau cyhoeddusrwydd i gynnwys gwybodaeth am Safle Treftadaeth Llechi Cymru, y tirweddau ysbennnydd a'r profiadau amrywiol a gewch yno.

Gellir gwneud hyn yn hawdd iawn y tro nesaf y byddwch yn diweddarau'ch gwefan, eich taflen, y cyfryngau cymdeithasol ac ati. Mantais gwneud hynny yw ei fod yn help i gysylltu'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes â'r ardal a'r dreftadaeth gan roi gwybod i gwsmeriaid newydd am eich grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes. Defnyddiwch yr adnoddau sydd ar gael i wneud hyn yn hawdd.

Defnyddio'r iaith Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o'r diwydiant llechi a'r dirwedd. Mae'n rhaid i'r holl ddeunyddiau marchnata fod yn ddwyieithog ac mae cyfleoedd i gyflwyno geirfa gyfoethog y diwydiant a'r ardal i ymwelwyr.

Cewch ragor o wybodaeth yn:
www.comisiynyddygymraeg.cymru

Y cyfryngau cymdeithasol

Efallai'ch bod eisoes yn defnyddio Facebook, Twitter, neu Instagram yn neilltuol – maent yn ffyrdd allweddol o gysylltu â chwsmeriaid posibl, cyhoeddi gwybodaeth a sylwadau ac ymateb i bostiadau pobl eraill. Ond gallwch eu defnyddio mewn ffordd drefnus hefyd, gan gynllunio mwy o weithgarwch yn ystod eich ymgyrch farchnata.

Gofalwch ddefnyddio hashnodau i ehangu'ch cynulleidfia. Dylech ddefnyddio'r un hashnodau ar yr holl gyfryngau cymdeithasol. Os defnyddiwch fwy arnynt, bydd yn helpu i wneud y stori'n fwy gweladwy ar y rhyngwyrdd.

Dyma rai hashnodau allweddol sy'n berthnasol i'r ardal:
#llechicymru, #walesslate, #mwynallechi, #morethanslate

Papurau newydd, radio, cylchgronau a theledu

O wefannau cymunedol i gyhoeddiadau rhanbarthol a Phrydeinig a chylchgronau arbenigol, mae lluo o gyfryngau a allai gyhoeddi gwybodaeth am eich grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes.

Rhoi'r neges ar led

Blogwyr

Manteisiwch ar y gymuned enfawr o bobl sy'n ysgrifennu blogiau am gerdded, teithio a gwyliau, neu am Gymru fel lle i ymweld ag ef. Os ydych yn cynnig arlwy sy'n croesawu teuluoedd, plant neu gŵn, chwiliwch am flogwyr sy'n ysgrifennu am y marchnadoedd hyn a marchnadoedd arbenigol eraill. Beth bynnag rydych yn ei gynnig, gall chwiliad sydyn ar-lein ganfod rhestr o flogwyr y gallwch gysylltu â nhw â'ch gwybodaeth.

Rhwydweithiau arbenigol

Gallwch dargedu sefydliadau a chymdeithasau arbenigol sy'n ymwneud â cherdded, gweithgareddau awyr agored, bwyd a diod, hanes lleol – unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'ch busnes chi a'r hyn y gallwch ei gynnig i Safle Treftadaeth Llechi Cymru.

Partneriaethau cymunedol lleol

Mae'n siŵr bod grwpiau, sefydliadau a chlystyrau o fusnesau twristiaeth yn eich ardal chi yn gweithio i hyrwyddo'r ardal. Gall y rhain gynnig cymorth gwerthfawr os cysylltwch â nhw yn rheolaidd i sôn am eich stori a'r hyn sydd gennych i'w gynnig fel y gallant drosglwyddo'ch manylion i eraill. Yn ogystal, gallant gynnig cysylltiadau ar gyfer datblygu gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd â busnesau eraill yn yr un maes neu faes tebyg.

Facebook:

Dyma lwyfan gwyh i dynnu sylw at eich grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes â digonedd o luniau. Gofynnwch i ymwelwyr wneud fideos bach yn eich argymell ar sail eu profiad yn ymweld â'r ardal. Yn ogystal, gallwch ddefnyddio'r adran Digwyddiadau ar Facebook i gysylltu ag adran ddigwyddiadau tudalen Llechi Cymru – Wales Slate.



@LlechiCymruWalesSlate

Instagram:

Gan mai llwyfan i luniau yw hwn, defnyddiwch ef i dynnu sylw at eich grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes gyda golygfeydd o dirwedd Llechi Cymru i'w gweld yn amlwg yn y llun, gan wahodd pobl i ddod i fwynhau'r ardal gan aros gyda chi, bwyta gyda chi neu ymweld â chi.



@llechicymruwaleslate

Twitter:

Dyma ffordd wych o gysylltu â grwpiau, sefydliadau a busnesau eraill a rhoi gwybod i'ch dilynwyr am eich cynigion arbennig. Cofiwch chwilio am @LlechiCymru ar Twitter a'n dilyn. Tagiwch ni yn eich postiau chi ac ymateb i'n negeseuon ac fe wnawn ninnau ein gorau i wneud yr un peth i chi. Edrychwch i weld pwyr ydym ni'n eu dilyn i weld a oes cyfleoedd i chi ymwneud â nhw, hyd yn oed os mai dim ond aildrydar neu rannu yw hynny. A meddyliwch sut y gallwch gynnwys Llechi Cymru yn eich gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol.



@LlechiCymru

Perffeithio'r neges

Rydym wedi ysgrifennu darnau y gallwch eu defnyddio ar eich gwefannau ac yn eich taflenni a'ch datganiadau i'r wasg ac ati. Mae'r arddull a ddefnyddir yn ffordd bwysig o gyfleu'r naws priodol. Mae'r enghreifftiau hyn yn cyfleu personoliaeth y lle ysblennydd hwn ac yn mynegi'r syniad craidd ynghylch y ffordd y mae'n ysbrydoli pobl ac yn ennyn eu hangerdd.

Gallwch ddefnyddio'r negeseuon a ganlyn, sy'n cynnwys pennawd a pharagraff, yn eich ymgyrchoedd marchnata i ennyn perthynas pobl â chymeriad a threftadaeth Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn ystod cyfnod y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd.

Sôn am Safle Treftadaeth y Byd

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn rhan o rwydwaith arbennig a gydnabyddir gan UNESCO fel y goreuon yn y byd. Maent yn cyfleu cyfnodau hollbwysig pryd y llwyddodd pobl i newid y byd am byth trwy eu hymdrechion.

Sôn am y dirwedd llechi

Mae stori llechi yn stori oesol sydd wedi gadael ei hôl ar y dirwedd, trefi, pentrefi a'r byd. Mae'r lle arbennig hwn yn dal i ddangos olion y diwydiant oedd yn gyfrifol am doi y byd. Trwy arloesi a thechnoleg, daeth yn ddiwydiant gyda'r gorau, gan sicrhau ei le yn hanes y byd.



Dewis y neges iawn

Mae llechi o Gymru wedi toi y byd; dewch i grwydro'r dirwedd wych a adawyd gan y diwydiant

Roedd y diwydiant llechi'n llawn dyfeisgarwch; dewch i ganfod anturiaethau cyffrous yn y chwareli a'r mynyddoedd

Mae'r lle hwn yn llawn straeon; dewch i weld sut y gadawodd y diwydiant llechi ei ôl ar iaith a diwylliant yr ardal

Mae gwaddol y diwydiant llechi i'w weld yn amlwg ac mae'r diwydiant yn dal i ffynnu heddiw

Delwedd wych

Bydd y lluniau a ddefnyddir wrth farchnata yn tynnu sylw at eich ardal a'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes. Dylai'r holl luniau gyfleu dylanwad y diwydiant llechi ar y bobl, y trefi a'r pentrefi. Dylent bortreadu'r dirwedd eang, fawreddog a chyfleu naws sy'n bendant yn lleol ac yn Gymreig.

Defnyddiwrch ffotograffau o ansawdd da i ddarlunio'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes a'i gynhyrchion neu wasanaethau. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys dolenni i ffotograffau trawiadol sy'n dangos y dirwedd syfrdanol sy'n gartref i'ch grŵp, eich sefydliad neu'ch busnes.

Cewch ragor o wybodaeth yn:

www.llechi.cymru

www.walesonview.com neu trwy ebostio
imagesupport@gov.wales

www.ymweldageryi.info / www.visitsnowdonia.info

<https://www.coflein.gov.uk/>.

Syniadau am luniau gwyh:

- Tynnwch luniau o ongl isel i dynnu sylw at rywbeth diddorol yn y tu blaen (gweler ar y dde)
- Tynnwch luniau o rywle uchel, yn edrych am i lawr
- Mae cynnwys pobl mewn lluniau o atyniadau ymwelwyr, trefi a phentrefi yn eu gwneud yn fwy diddorol



Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis



Amgueddfa Ysbyty Chwarel Dinorwig, Llanberis

Defnyddio'r logo

Gallwch dorri a gludo neu lawrlwytho'r adnoddau hyn ar gyfer eich gwefan, eich gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol, taflenni a deunyddiau marchnata eraill er mwyn rhoi gwybodaeth werthfawr i'ch cwsmeriaid ac ychwanegu at eu profiad.





Defnyddio'r logo

Canllaw Brand
Brand Guidelines

Tudalen
Page
1



Llechi Cymru
Wales Slate

Prif logo
Main logo



Llechi Cymru
Wales Slate

Fersiwn gwyn
White version



Llechi Cymru
Wales Slate



Llechi Cymru
Wales Slate

Defnyddio'r logo

Canllaw Brand
Brand Guidelines

Tudalen
Page
5

Diogelu'r logo Logo protection

Mae angen gwagle o amgylch y
logo phob amser.

An exclusion zone is needed
around the logo at all times.

Maint y logo Logo Sizing

Awgrymir i chi beidio leihau y
logo heibio 30mm o led.

We advise you do not reduce
the logo past 30mm width.



Defnyddio'r logo

Canllaw Brand
Brand Guidelines

Tudalen
Page
6

Pethau i beidio a gwneud

Pan yn defnyddio'r logo rhaid
cadw at y rheolau. Peidiwch a
gwneud y canlynol:

- A: Gwasgu'r logo
- B: Newid y ffont
- C: Defnyddio effeithiau
- D: Defnyddio cefndir anaddas

Things not to do

When using the logo please
adhere to the rules. Do not do
the following:

- A: Distort the logo
- B: Change the font
- C: Use effects
- D: Use and unsuitable backdrop





Rhagor o gymorth

Os hoffech ragor o gymorth ynghylch Cais Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru am Statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, neu am ddulliau marchnata a'r help sydd ar gael, cysylltwch â:

- www.llechi.cymru
- llechi@gwynedd.llyw.cymru
- 01766 771000

